Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 26ain o Ionawr 2011 am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Christopher Parish, y Dirprwy Faeres y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Cyn y cyfarfod, mynegodd y Maer dristwch y Cyngor wrth glywed am farwolaeth y Cynghorydd Ieuan Gwyn. Talodd y Cyng. Parish deyrnged i'r gwasanaeth hir a gwerthfawr a roddodd y Cynghorydd Gwyn i'r Gymuned dros dri degawd. Arhosodd pawb a oedd yn bresennol ar eu traed am funud o dawelwch.

Ymddiheuriadau: Dim.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Adroddodd y SCCH Roger Anthony y cyflawnwyd 20 o droseddau yn ystod y mis yn Ardal y Tywi. Cyflawnwyd chwech o droseddau yn Llandeilo. Torrwyd i mewn i dri char ar yr un noson mewn tri gwahanol leoliad. Torrwyd i mewn i flwch ffôn ar Heol y Brenin, a hefyd cafodd bag llaw ei ddwyn o dŷ trwyddedig.
Dywedodd y SCCH Anthony y cafodd rhai achosion eu cofnodi yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
Diolchodd y Cyng. Edward Thomas i'r SCCH Anthony am fod yn ddirprwy i'r hebryngwr croesfannau ysgol unwaith eto yn ystod profedigaeth yn ddiweddar.

Cof 242 / Ion / 11 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 15fed o Ragfyr 2010, yn gofnod cywir, yn dilyn y diwygiad canlynol:-
Cof 217/Rhag/10(3)newid y gair cyllideb i braesept. Dylai'r cofnod hwn ddarllen fel a ganlyn
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy na ddylai'r Cyngor gynyddu ei braesept ar gyfer 2011/12, h.y. cael praesept ddigyfnewid, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Y praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf fyddai £49,10. Roedd pawb o blaid.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 12fed o Ionawr 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 12fed o Ionawr 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Julia Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 243 / Ion / 11 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â. Cof 240/Ion/11. Cafwyd cais gan Mr Des Davies, Swyddog Technegol, i'r mater o atgyweirio Cloc yr Eglwys i gael ei osod ar yr Agenda ar gyfer y Cyfarfodydd Pwyllgor nesaf.

Cof 244/ Ion / 11 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Sainsbury's ynglŷn â datblygu archfarchnad newydd. Byddai'r Cynghorwyr yn mynychu arddangosfa ar y cynigion ar ddydd Gwener yr 28ain o Ionawr. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn oedi cyn cynnig eu sylwadau nes bod pob un ohonynt wedi gweld y cynigion. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
2. Y Cyng. Roy Davies ynglŷn â chynigion Sainsbury's. Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth nes wedi'r arddangosfa.
3. Clwb Rygbi Llandeilo ynglŷn â llythyr o gefnogaeth. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu i gefnogi cais y Clwb Rygbi am grant. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
4. Mesur Lleoliaeth y Llywodraeth. Amlinellodd y Clerc brif nodweddion y Mesur er gwybodaeth.
5. Clwb Garddio Llandeilo ynglŷn â Llandeilo yn ei Blodau. Rhoddodd Mr Roy Kinnell rybudd na fyddai'n medru parhau gyda'r trefniadau presennol o ran ardaloedd plannu o amgylch y Dref. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Mr Kinnell am ei waith caled. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Byddai'r Cyng. Edward Thomas yn gwneud ymholiadau mewn perthynas â'r trefniadau ariannol yn y dyfodol.
6. Jeff Hier ynglŷn â digwyddiad Beicio Modur. Cytunwyd y byddai trafodaeth anffurfiol yn cael ei chynnal gydag aelodau o'r pwyllgor trefnu i ddod o hyd i ffyrdd y gallai'r Cyngor helpu.

Cof 245 / Ion / 11 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Ymestyn dyddiad cau Holiadur Sipsiwn a Theithwyr CSG i 25.2.11.
2. Un Llais Cymru ynglŷn â gwahoddiad Palas Buckingham. Byddai enw'r Maer yn cael ei gynnig er ystyriaeth.
3. LlCC- Adran 137 - y terfyn ar gyfer rhoddion yn 2011-12 fyddai £ 6.44 fesul etholwr
4. Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed – Hysbysiad am Ddathliad Fforio'r Tywi ar y 5ed o Chwefror yn Ysgol Tregib.
5. CS Ieuan Jones ynglŷn â gwybodaeth am gymorth grant. Roedd y Cyng. Roy Davies wedi gofyn i CSG am gyfarfod yr wythnos nesaf mewn perthynas â Phont y Brenin.
6. Y Comisiwn Etholiadol ynglŷn â'r Refferendwm ar bwerau deddfu newydd ar y 3ydd o Fawrth 2011.
7. Dilyn y Fflam/Follow the Flame. Prosiect i ddarparu gwybodaeth am gyfranogiad Cymru yn y gemau Olympaidd.

8. Un Llais Cymru – Cyfarfod Ardal ar yr 31ain o Ionawr 2011 ym Mynydd y Garreg.
9. WPS - Cwmni Yswiriant. Penderfynwyd gofyn i'r Swyddog Cyllid i fynd ati i ofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer polisi'r Cyngor y flwyddyn nesaf.
10. Crochendy Felingwm ynglŷn ag eitemau dathlu'r briodas Frenhinol.

Cof 246 / Ion /11 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

Davies Electrics (gosod goleuadau tymhorol Rhag.2010)	£ 2,818.80
Davies Electrics (gwaith ychwanegol ar y goleuadau tymhorol)	£ 499.37
Swyddog Cyllid (inc i'r argraffydd)	£ 57.55
Mr Des Davies (arian ychwanegol i'r ffôn symudol)	£ 20.00

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod yr eitemau yma'n cael eu pasio i'w talu, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

2.Materion Ariannol Eraill

i) Dywedodd y Swyddog Technegol fod ystyriaeth wedi cael ei roi i ad-dalu tenant Fflat 4, Tŷ Prospect, am y trydan a ddefnyddiwyd oherwydd y gosodwyd goleuadau Nadolig ar yr adeilad yn ystod cyfnod y Nadolig. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod swm, wedi'i gyfrif, o £25 yn cael ei dalu. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

ii) Darparodd y Clerc ddyfynbris oddi wrth Lewis Printers am ailargraffu taflenni'r Llwybr Tref Treftadaeth yn Gymraeg/Saesneg. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Cyngor yn archebu 5,000 o daflenni am bris o £568, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 247 / Ion / 11 Doedd dim Adroddiad y Cynghorydd Sir oherwydd nad oedd y CS Ieuan Jones yn medru bod yn bresennol.

Cof 248 /Ion /11 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd.

Cof 249 / Ion /11 Ceisiadau Cynllunio

E/24168 3x panel A1 gyda gwybodaeth am y warchodfa natur a bywyd gwyllt yng Nghoed y Castell.
Sylw: Dim arsylwadau

E/24120 Rhannu'r annedd domestig tair ystafell wely presennol i 2 fflat un ystafell wely hunangynhwysol yn 5, Adeiladau'r Banc.

Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â bod y trefniadau parcio yn bodloni'r rheoliadau presennol.

E/23640 I drawsnewid y Kings Head a'r adeiladau cyffiniol i mewn i 7 uned breswyl. Byddai'r prif dŷ'n cael ei rannu'n ddau annedd sylweddol.
Sylw: Ystyrir bod ymweliad safle'n angenrheidiol i gadarnhau'r arsylwadau.
Oherwydd amharodrwydd Swyddog Cynllunio CSG i drefnu ymweliadau safle, byddai'r Cadeirydd yn trefnu gyda datblygwr y safle i'r Cyngor i ymweld â'r lle.

Cof 250 / Ion / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cyflwynodd y Swyddog Technegol ei adroddiad i'r Cyngor. Oherwydd bod Mr Moses yn dal heb gwblhau'r gwaith ar ffenestr y Siambr, gofynnodd a fyddai modd i'r Clerc i ysgrifennu llythyr yn gofyn am i'r gwaith i gael ei gwblhau cyn gynted ag sy'n bosib. Cytunwyd i hyn.

Cafwyd cais gan y Cyng. Colin Jenkins i'r mater o ad-dalu tenantiaid preifat am y trydan a ddefnyddiwyd oherwydd y gosodwyd goleuadau Nadolig ar eu cartrefi i gael ei osod ar agenda'r Pwyllgor Cyllid. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 251 / Ion / 11 Adroddiad y Maer.

Rhoddodd y Maer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis diwethaf.

Cof 252 / Ion /11 Adroddiadau Eraill

1. Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
   Cyflwynodd y Cyng. Charlotte Leadbeater adroddiad cynhwysfawr, a oedd yn tynnu sylw at lawer o argymhellion i'r is-grŵp trefnu i'w hystyried ar gyfer y digwyddiad y flwyddyn nesaf. Cafwyd cais gan y Cyng. Leadbeater bod rhoddion i'r amrywiol grwpiau gwirfoddol a fu'n cynorthwyo gyda'r digwyddiad yn cael ei osod ar agenda'r Pwyllgor Cyllid. Hefyd, gofynnodd bod cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Phwyllgor Gŵyl y Synhwyrau.
2. Is-grŵp Tân Gwyllt.
   Dywedodd y Cyng. Fran Murphy fod gan yr is-grŵp dri opsiwn i'w cyflwyno i'r Cyngor. Fodd bynnag, oherwydd nad oedd rhai manylion ariannol ar gael, gofynnodd a ellir gohirio'r adroddiad terfynol ac felly gohiriwyd y mater nes cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Chwefror.

Cof 253/ Ion /11 Eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Derbyniwyd ymholiad oddi wrth un o'r trigolion lleol ynglŷn â defnyddio gardd Heol Cilgant fel rhandir. Yn anffodus, roedd y Cyngor yn gaeth i gontract gyda chontractwr i gadw at y cynllun plannu presennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25yh.